Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Dinbych
# Ffordd Rhuthun
# Dinbych
# Sir Ddinbych
# LL16 3EX

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn ysgol gyfun gymysg, cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 18 oed, a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae nifer y dysgwyr wedi gostwng o 955 adeg yr arolygiad diwethaf i 726 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dros y cyfnod hwn, mae'r nifer yn y chweched dosbarth wedi cynyddu ychydig i 127 ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu Dinbych, Llanelwy a'r ardaloedd gwledig o'u cwmpas. Mae tua 21% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 17.4%. Mae ychydig o dan 13% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae mwy o fechgyn na merched. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae gan tua 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol sef 2.6%. Mae tuag 8% o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg mamiaith neu i safon gyfatebol.

Yn achos darpariaeth y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn rhan o Gonsortiwm Dyffryn Clwyd ynghyd ag ysgolion eraill a dau goleg addysg bellach.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym Medi 2011. Cafodd uwch arweinyddiaeth y pennaeth a'r ddau bennaeth cynorthwyol ei hymestyn yn Ionawr 2012 i gynnwys tri phennaeth cynorthwyol cysylltiedig dros dro.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Dinbych yn 2011-2012 yn golygu mai £4,301 y disgybl yw'r gyllideb. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych yw £4,659 a'r isafswm yw £3,831. Mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn bedwaredd o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae nodweddion da i waith yr ysgol, gan gynnwys:

- mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd;
- gwelliant sylweddol mewn ymddygiad gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda;
- ethos pwrpasol a lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad; ac
- addysgu effeithiol yn y mwyafrif o wersi.

Fodd bynnag, mae perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- dros y pedair blynedd diwethaf, bu perfformiad ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4;
- roedd perfformiad mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 yn 2011 yn wael a thros y pedair blynedd diwethaf, bu ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg;
- mae cynnydd disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol yn wael yn y rhan fwyaf o ddangosyddion;
- mae perfformiad merched islaw disgwyliadau ac maent yn aml yn amharod i ymateb mewn gwersi;
- nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn gwersi;
- nid yw mwyafrif y disgyblion yn sillafu geiriau allweddol yn gywir ac mae lleiafrif yn gwneud gwallau atalnodi sylfaenol; ac
- nid yw ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ac maent yn cynhyrchu gwaith o ansawdd cyfyngedig.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae'r ysgol wedi gwneud nifer sylweddol o welliannau mewn cyfnod cymharol fyr;
- mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth ysbrydoledig a deinamig; ac
- mae systemau a strwythurau addas ar waith i wella addysgu, arweinyddiaeth a hunanafarnu a chynllunio gwella.

Fodd bynnag:

- mae llawer o'r strwythurau a'r prosesau yn rhy newydd i fod ar waith yn llawn neu i gael eu heffaith arfaethedig; ac
- megis dechrau y mae'r ddarpariaeth a'r cydlyniad ar gyfer medrau.

## Argymhellion

Mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Sir Ddinbych:

A1 godi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg;

A2 gwella safon sillafu ac atalnodi, ac ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion;

A3 codi'r disgwyliadau a'r her mewn addysgu i gyfateb i'r arfer orau yn yr ysgol;

A4 rhoi sylwadau penodol i ddisgyblion ynghylch sut gallant wella'u gwaith a defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau priodol sy'n bodloni anghenion yr holl ddysgwyr;

A5 gwella cysondeb hunanarfarnu a chynllunio gwella ar lefel rheolaeth ganol; a

A6 sicrhau bod disgybl lywodraethwyr cyswllt.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Yng nghyfnod allweddol 3, er bod perfformiad wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, mae'n parhau islaw perfformiad ysgolion tebyg ac felly y bu am y pedair blynedd diwethaf. Yn yr un modd, fe wnaeth perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wella dros y pedair blynedd diwethaf, ond eto bu islaw perfformiad ysgolion tebyg bob amser. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn 2011 islaw disgwyliadau ar gyfer Saesneg a mathemateg, ac ymhell islaw'r disgwyliadau ar gyfer gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn y rhan fwyaf o ddangosyddion dros y pedair blynedd diwethaf, bu perfformiad ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg. Roedd perfformiad mewn Saesneg yn 2011 yn wael ac mae islaw'r perfformiad a gyflawnwyd yn 2008. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg wedi bod ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg. Er bod perfformiad mewn mathemateg wedi gwella yn 2011, mae'n parhau islaw cyfartaledd y teulu a, thros y pedair blynedd diwethaf, bu ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg. Mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 ac o gyfnod allweddol 3 yn wael yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster ac mae'r gyfran sy'n aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed yn uchel. Adroddir nad yw ychydig o ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac mae'r gyfran hon yn debyg i'r gyfran ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Er bod myfyrwyr y chweched dosbarth yn perfformio ymhell islaw cyfartaleddau Cymru, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, gan gynnwys gwneud cynnydd da iawn mewn tua thraean o bynciau.

Yng nghyfnod allweddol 3, yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae tangyflawni sylweddol gan ferched o'u cymharu â pherfformiadau merched mewn ysgolion tebyg ac ar draws Cymru gyfan. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n waeth na'r disgwyl yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae tua thraean o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni'n dda iawn ac mae bron pob un o'r gweddill yn cyflawni yn ôl y disgwyl.

Yn y mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ac yn datblygu medrau priodol. Maent yn mynd drwy eu tasgau ar gyflymder addas ac yn cynhyrchu gwaith o safon dda. Dangosant afael gymwys ar gysyniadau allweddol pynciau, ac maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth yn dda i sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd. Mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gallu adalw cynnwys eu gwaith yn llawn ac yn gywir. Mewn ychydig o'r gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl, wedi'i datblygu'n dda, o'r pynciau y maent yn eu hastudio. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i weithgareddau heriol ac yn sicrhau gafael gynhwysfawr ar eu gwaith.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw ychydig ddisgyblion, yn aml y rhai mwy abl, yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Nid ydynt yn cwblhau tasgau i'r safon y gallent ei chyflawni ac, yn aml, mae ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig neu anghyflawn o'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn effeithiol i athrawon ac i gymheiriaid, gan adeiladu ar sylwadau disgyblion eraill mewn trafodaeth grŵp. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion mwy galluog yn gofyn cwestiynau craff i'w hathrawon ac i'w gilydd ac yn dangos trosolwg soffistigedig o'r pynciau sy'n cael eu hastudio. Mae diffyg rhuglder a hyder yn ymatebion llafar ychydig o ddisgyblion ac nid ydynt yn cymryd rhan yn barod mewn trafodaethau grŵp neu ddosbarth. Mae merched, yn benodol, yn fwy amharod i ymateb yn fanwl i gwestiynau oni ofynnir iddynt yn uniongyrchol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yn gadarn yr hyn maent yn ei ddarllen. Mae llawer yn arfarnu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn dda ac yn esbonio syniadau a rhesymau yn glir. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud nodiadau yn gymwys, gan ddewis gwybodaeth briodol er mwyn dod i gasgliadau. Fodd bynnag, mewn ychydig bynciau, nid yw disgyblion mwy abl yn darllen testunau o natur ddigon heriol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mewn rhai pynciau, mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn, er enghraifft areithiau argyhoeddiadol a thraethodau rhesymegol. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod eang o eirfa sy'n perthyn yn benodol i bwnc yn dda i gymharu ac arfarnu'n gymwys, ac i adrodd digwyddiadau a phrosesau'n glir. Nid yw ychydig ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ac maent yn cynhyrchu gwaith o ansawdd cyfyngedig. Nid yw mwyafrif y disgyblion yn sillafu geiriau allweddol yn gywir ac mae lleiafrif yn gwneud gwallau atalnodi sylfaenol.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, fe wnaeth perfformiad wella'n raddol tan 2010, ond disgynnodd yn ôl yn 2011 i lefelau tebyg i 2008 a 2009. Roedd perfformiad yn 2011 islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae nifer y disgyblion a gyflwynwyd am gymwysterau Cymraeg ail iaith wedi bod yn disgyn dros y pedair blynedd nesaf a dim ond ychydig ddisgyblion sy'n cyflawni cymhwyster lefel 2. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer cymhwyster mewn Cymraeg yn gwneud yn dda.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a theimlant fod yr ysgol yn delio â bwlio yn dda. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o fwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael cyfleodd rheolaidd i wneud ymarfer corff, gyda lefelau uchel yn cymryd rhan mewn rhaglenni fel '5x60'. Hefyd, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o fwyta'n iach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn ystyriol ac yn gwrtais ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd. Mae ymddygiad wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ysgol, gyda gostyngiad sydyn yn nifer yr enghreifftiau o ymddygiad amhriodol. Mae agweddau disgyblion at yr ysgol a'u dysgu yn gadarnhaol. Mae arolygon o'u hagweddau atynt eu hunain ac at yr ysgol yn dangos gwelliannau sylweddol dros y 12 mis diwethaf, yn enwedig

mewn meysydd fel agweddau at athrawon, ymddygiad a dysgu, ac yn eu hymdeimlad o les a diogelwch. Mae presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar yn sgil dull mwy systematig o nodi a dilyn i fyny, gan gynnwys ffocws penodol ar wella presenoldeb disgyblion penodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon, er bod ychydig ohonynt yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr.

Mae gan ddisgyblion fwy a mwy o ddweud ym mywyd a gwaith yr ysgol drwy'r cyngor ysgol sy'n datblygu ac, er enghraifft, trwy gymryd rhan mewn 'fforymau llais y dysgwr' ar agweddau ar waith yr ysgol. Mae disgyblion wedi cyfrannu at welliannau o ran bwyta'n iach ac maent wedi cymryd rhan mewn penodi staff uwch. Nid oes gan yr ysgol ddisgybl lywodraethwyr cyswllt.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol, yn enwedig rhai yn y celfyddydau perfformio. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol a bywyd sydd wedi datblygu'n dda. Dangosant barch, gofal a phryder tuag at eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau'n barod, er enghraifft, gweithredu fel mentoriaid cymheiriaid, 'bydis' a swyddogion ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn bodloni gofynion. Mae ystod foddhaol o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac ystod eang iawn o opsiynau yn y chweched dosbarth, yn bennaf o ganlyniad i gydweithio â darparwyr eraill yng nghonsortiwm Dyffryn Clwyd. Yng nghyfnod allweddol 4, mae prosiect 'Potensial' (menter gan Lywodraeth Cymru yng ngogledd Cymru sy'n targedu pobl ifanc 11 i 16 oed sy'n wynebu anawsterau fel tangyflawni neu absenoliaeth) yn cynnig darpariaeth dda i grŵp bychan o ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio ac mae'n arwain at gymwysterau buddiol. Mae nifer dda yn ymgymryd â chyrsiau galwedigaethol. Fodd bynnag, nid yw ehangu'r arlwy cyrsiau wedi cyfrannu eto at welliannau mewn deilliannau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol, gan gynnwys cynyrchiadau'r celfyddydau perfformio a gweithgareddau chwaraeon y mae nifer dda o ddisgyblion yn eu mynychu.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth briodol i wella safonau mewn llythrennedd. Mae darpariaeth addas ac effeithiol yn gyffredinol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd â medrau sylfaenol gwan. Mae'r ddarpariaeth a'r cydlyniad ar gyfer medrau llythrennedd a meddwl yn datblygu'n dda drwy gynlluniau gweithredu llythrennedd adrannol sydd â ffocws da a gweithgareddau cofrestru pwrpasol. Fodd bynnag, mae'r mentrau hyn yn gymharol newydd ac nid ydynt wedi cael effaith ar godi safonau. Mae'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Caiff y disgyblion hyn, a'r nifer fach o fyfyrwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn yn y chweched dosbarth, gyfleoedd addas i ennill cymwysterau mewn medrau.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da o ran gwella'i darpariaeth iaith Gymraeg. Mae tiwtoriaid Blwyddyn 7 yn datblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn dda yn ystod amser cofrestru. Mae cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n dewis dilyn cymwysterau

lefel 2 cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4, er bod y nifer yn isel o hyd. Mae'r dimensiwn Cymreig yn ymddangos yn briodol mewn llawer o bynciau heblaw'r Gymraeg ac mewn rhai gweithgareddau diwylliannol yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi, fel ymweliadau preswyl.

Megis dechrau datblygu y mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Fodd bynnag, mae ychydig bynciau, gan gynnwys daearyddiaeth, gwyddoniaeth, celf, a dylunio a thechnoleg, yn hyrwyddo gwaith ar ddatblygu cynaliadwy yn dda. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cymryd rhan yn weithgar mewn nifer o brosiectau gwella amgylcheddol. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, daearyddiaeth a phrosiect 'Comenius' sy'n cysylltu â phedair ysgol yn Ewrop yn helpu cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

### Addysgu: Digonol

Caiff gwersi eu cynllunio mewn fformat cyson, ysgol-gyfan, sy'n sicrhau bod ganddynt ddiben clir a strwythur rhesymegol. Mae gan athrawon wybodaeth dda am eu pwnc ac maent yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion.

Yn y mwyafrif o wersi, mae addysgu yn helpu disgyblion i ddatblygu'n dda wrth ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cyfleu'r deilliannau dysgu penodol yn llwyddiannus, yn cysylltu'r gweithgareddau â syniadau allweddol a threfn gyffredinol gwersi, ac yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni. Mae cyfarwyddiadau ac esboniadau yn glir ac yn graff. Caiff tasgau eu cyflwyno'n dda, gan wneud defnydd da o dechnegol gwybodaeth a chyfathrebu yn aml, a chaiff ystod eang o ddeunyddiau dysgu eu defnyddio'n effeithiol. Mae gweithgareddau a gynlluniwyd i fodloni'r amcanion yn briodol ac maent yn aml yn gwneud i ddisgyblion feddwl yn ddwfn am eu gwaith. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau addas ynghylch beth ddylai disgyblion ei gyflawni ac mae gwersi'n mynd yn eu blaen ar gyflymder da, gyda gweithgareddau sydd wedi'u hamseru'n dda. Mewn ychydig o'r gwersi hyn, mae'r addysgu yn arbennig o effeithiol gyda disgwyliadau arbennig o uchel o ddisgyblion ac mae'n cynnwys cwestiynau a thasgau craff a heriol iawn.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau'n ddigon uchel, yn enwedig y disgwyliadau ynghylch disgyblion mwy abl. Yn y gwersi hyn, nid yw llawer o gwestiynau a gweithgareddau yn procio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn gwneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn ymroi'n llawn i dasgau ac yn cynhyrchu gwaith o safon briodol.

Mae system newydd ac effeithiol, wedi'i threfnu'n dda, ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion a gosod targedau i ddisgyblion, ar sail disgwyliadau uchel. Mae llawer o athrawon yn defnyddio gwybodaeth o'r system olrhain yn dda i lywio ymyriadau i'r Flwyddyn 11 bresennol ac maent yn targedu gwelliannau priodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mewn ychydig bynciau, mae disgyblion yn arddangos medrau rhagorol wrth fyfyrio ar sut i wella'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn o safon eithriadol, gan eu bod yn defnyddio meini prawf yn fedrus yn eu harfarniadau. Mae ychydig

athrawon yn rhoi adborth manwl a defnyddiol ar safon gwaith disgyblion a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o lyfrau, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon penodol ar gyfer helpu disgyblion i wneud cynnydd ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblon wella ansawdd eu gwaith. Nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio gwybodaeth yn ddigon da i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau priodol i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr.

Caiff rhieni adroddiadau manwl ar gynnydd eu plant. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau'n nodi cryfderau a gwendidau'n glir. Mae llawer o rieni o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth dda am gyflawniad a chynnydd eu plentyn. Fodd bynnag, nid yw ychydig rieni o'r farn eu bod yn cael digon o wybodaeth yn ymwneud yn benodol â phynciau mewn nosweithiau rhieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd diogel a gofalgar sy'n cefnogi lles a datblygiad personol disgyblion yn effeithiol. Mae ystod werthfawr o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn defnyddio asiantaethau arbenigol yn briodol wrth gyflwyno'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg rhyw a pherthynas, ac addysg ar gamddefnyddio cyffuriau a sylweddau. Mae ystod eang o weithgareddau corfforol allgyrsiol yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynllunio gwasanaethau a chyfnodau cofrestru yn dda ac mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i fyfyrio. Mae tiwtoriaid dosbarth yn helpu disgyblion yn effeithiol i reoli eu teimladau ac i ddatblygu hunanymwybyddiaeth. Mae'r cymorth y mae disgyblion yn ei gael wedi cyfrannu at y gwelliant mewn ymddygiad a phresenoldeb.

Mae disgyblion a rhieni yn cael arweiniad a chymorth defnyddiol pan fyddant yn dewis opsiynau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r cyfnod ôl-16 oed. Mae anogwyr dysgu yn rhoi cymorth o ansawdd uchel, wedi'i gynllunio'n dda, i ddisgyblion, fel y disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar lefel TGAU a disgyblion mwy agored i niwed ym Mlwyddyn 9. Mae mynediad addas at wasanaethau arbenigol a darpariaeth gwybodaeth.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth cynhwysfawr i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff disgyblion ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol eu hintegreiddio'n dda i ddosbarthiadau prif ffrwd. Mae systemau effeithiol ar waith i nodi a thargedu disgyblion y mae angen help ychwanegol arnynt. Mae'r 'Llyfr Gwyrdd', sy'n cynnwys ysgrif bortreadau o ddisgyblion, yn arbennig o ddefnyddiol adeg dechrau yn yr ysgol. Mae ystod o strategaethau ymyrryd yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ychydig ddisgyblion sy'n cael eu tynnu allan o wersi ar gyfer cael cymorth yn colli gwersi Saesneg a mathemateg. Mewn dosbarthiadau prif ffrwd, mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos digynnwrf, pwrpasol a chadarnhaol. Caiff gweledigaeth yr ysgol, sef 'Llwyddo gyda'n Gilydd, Datblygu gyda Balchder, er Rhagoriaeth mewn Dysgu' ei hyrwyddo'n llwyddiannus ac mae i'w gweld yn niwylliant yr ysgol. Mae'n gymuned gynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae disgyblion ag anableddau yn gallu mynd i bob rhan o'r ysgol ac maent wedi'u hintegreiddio'n dda iawn ym mywyd yr ysgol. Eir i'r afael yn effeithiol â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae'r adeiladau'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ac anghenion y cwricwlwm. Mae rhaglen o welliannau wedi llwyddo i wella ansawdd yr adeiladau. Mae arddangosiadau diddorol o waith disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth a choridorau, sy'n cynnig amgylchedd dysgu ysgogol a chadarnhaol. Mae tir yr ysgol yn cael ei cynnal a'i gadw'n dda ac mae'n rhydd rhag sbwriel a graffiti yn gyffredinol. Mae'r adeilad a'r tir yn ddiogel.

Mae adnoddau dysgu yn dda yn gyffredinol. Mae adnoddau da yn llyfrgell yr ysgol a chaiff ei defnyddio'n effeithiol gan ystod eang o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol, ac mae'r ysgol wedi sicrhau cyllid i'w gwella'n sylweddol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi gwneud nifer sylweddol o welliannau mewn cyfnod cymharol fyr. Ers ymgymryd â'i swydd ym Medi 2011, mae'r pennaeth wedi cynnig arweiniad ysbrydoledig a deinamig. Mae'n cynnig gweledigaeth benodol, a ddeellir yn dda, ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws ar wella safonau mewn Saesneg a mathemateg yn benodol. Mae ymdeimlad clir o gyfeiriad ac mae'r pennaeth yn cyfleu hyn gyda brwdfrydedd i staff, rhieni a disgyblion. Mae gan staff hyder ac ymddiriedaeth sylweddol yng ngallu'r pennaeth, sy'n cael ei gefnogi'n dda gan y tîm arwain, i sicrhau newid.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno systemau clir sy'n canolbwyntio'n gadarn ar y meysydd y mae angen eu gwella fwyaf. Er mai dim ond ers cyfnod byr y bu'r tîm arwain yn ei le, bu cynnydd sylweddol eisoes o ran gwella ymddygiad, cryfhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu a diffinio rôl arweinwyr canol yn glir. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld yr effaith ar safonau, yn enwedig ar y dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r pennaeth wedi mynd i'r afael â thanberfformio yn gadarn, wedi herio amgyffredion ac wedi creu ethos o atebolrwydd ymhlith arweinwyr. Mae strwythur rheoli clir, gan gynnwys trefniadau rheoli llinell. Mae llawer o reolwyr llinell yn cyfarfod yn rheolaidd â'r rheiny y maent yn eu rheoli, gyda chyfarfodydd bob pythefnos wedi'u cofnodi yn y calendr. Mae blaenoriaethau sy'n cael eu nodi yn ystod cyfarfodydd uwch arweinwyr yn llywio'r agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn, gyda ffocws cadarn ar wella safonau.

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol ac uwch rolau sydd wedi’u diffinio’n dda. Maent yn glir ynghylch sut maent yn cyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn deall eu cyfrifoldebau am herio tanberfformio a sicrhau gwelliant. Gallant gael at ystod o ddata cymharol ar berfformiad ac mae llawer ohonynt yn dechrau defnyddio’r wybodaeth hon yn dda i olrhain cynnydd disgyblion, arfarnu perfformiad a chychwyn camau gweithredu lle bo’u hangen.

Mae llywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn cefnogi’r pennaeth a’i weledigaeth ar gyfer yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella, ac maent yn cynnig cymorth addas. Mae strwythur pwyllgor priodol ac mae llywodraethwyr unigol yn cysylltu ag adrannau gan ddefnyddio fframwaith cytûn o faterion i’w trafod gyda rheolwyr canol. Mae eu defnydd o ddata i arfarnu perfformiad ac i herio’r ysgol yn datblygu’n dda.

Mae’r ysgol yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol yn llawn ac mae wedi gwneud cynnydd sicr o ran ehangu ystod y cyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth. Mae’n dechrau gwneud cynnydd buddiol o ran mynd i’r afael â gwendidau mewn llythrennedd.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddiwylliant sy’n datblygu o hunanarfarnu effeithiol a chynllunio gwella. Bu nifer o welliannau arwyddocaol er Medi 2011, ond mae gweithdrefnau yn gymharol newydd ac nid ydynt ar waith yn llawn eto.

Mae’r ysgol wedi cyflwyno proses drylwyr o sicrhau ansawdd, yn cynnwys yr holl staff, er Medi 2011. Mae hyn yn sicrhau bod hunanarfarnu yn systematig ac yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ar lyfrau, dadansoddi data ac olrhain cynnydd. Mae barn disgyblion yn dechrau gwneud cyfraniad ystyrlon i’r broses.

Mae adroddiad hunanarfarnu’r ysgol yn onest ac yn hunanfeirniadol ac mae’n rhoi disgrifiad clir o’r meysydd penodol y mae angen eu gwella. Mae’n cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad, yn nodi’n glir lle gwnaed cynnydd ac yn blaenoriaethu meysydd y mae angen eu gwella.

Mae’r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio gwella yn datblygu’n dda, ond nid yw wedi sefydlu’n gadarn. Mae cynlluniau ysgol gyfan fel y cynllun gwella ysgol a’r ‘Cynllun Cyrhaeddiad Cyflym’ wedi’u seilio ar weithgareddau hunanarfarnu a gwella safonau yw eu prif flaenoriaeth frys. Fodd bynnag, nid yw costau’r rhain wedi’u cyfrif yn llawn ac nid ydynt yn cynnig targedau mesuradwy ar gyfer yr amcanion gwella allweddol yn gyson.

Mae’r rhan fwyaf o gynlluniau gwella adrannau yn rhesymegol ac mae ganddynt arwyddion clir o amserlenni, cyfrifoldebau a deilliannau disgwyliedig. Dim ond ychydig, fodd bynnag, sy’n adlewyrchu’r blaenoriaethau ysgol gyfan ar gyfer gwella. At ei gilydd, mae ansawdd cynlluniau datblygu adrannau yn anghyson.

Mae grwpiau sefydledig o athrawon yn canolbwyntio ar feysydd allweddol i’w gwella fel llythrennedd, medrau meddwl, ac addysgu a dysgu. Mae gan yr ysgol

strategaethau effeithiol i ddatblygu medrau arwain. Mae rhaglen gydlynus o weithgareddau datblygu proffesiynol sydd â'r nod o fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd. Caiff ei heffaith ei monitro a'i harfarnu fel mater o drefn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i gryfhau'r cwricwlwm a darparu ystod fuddiol o brofiadau i'w disgyblion.

Mae cysylltiadau â darparwyr fel rhan o gonsortiwm Dyffryn Clwyd yn effeithio'n gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion. Mae gan y consortiwm drefniadau sicrhau ansawdd effeithiol ac mae'n rhannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion fel mater o drefn rhwng darparwyr er mwyn galluogi staff i fonitro cynnydd.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarn â'i hysgolion cynradd partner. Mae ystod addas o weithgareddau pontio ac mae'r rhain yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym ym Mlwyddyn 7. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys y 'Clwb Mathemateg' wythnosol ynghyd ag ymweliadau gan ddisgyblion Ysgol Uwchradd Dinbych â'r ysgolion cynradd partner i gyflwyno gwersi iaith arwyddion. Er bod ystod fuddiol o weithgareddau, ni chânt eu cydlynu'n strategol ac megis dechrau y mae agweddau ar bontio.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â grwpiau cymunedol, elusennau a busnesau lleol. Mae'r partneriaethau hyn wedi cryfhau'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, ac maent wedi cael effaith fuddiol ar les disgyblion.

Er penodi'r pennaeth newydd, mae partneriaethau â rhieni wedi cael eu cryfhau. Mae rhieni yn gadarnhaol ynghylch y cyfle i fynychu sesiynau 'cymhorthfa' wythnosol y pennaeth i drafod agweddau ar fywyd yr ysgol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno system o anfon negeseuon testun i gyfathrebu'n fwy effeithlon â rhieni.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei staff yn briodol, er bod nifer sylweddol yn addysgu y tu hwnt i faes eu harbenigedd. Mae'r nifer gymharol uchel o ddosbarthiadau sy'n cael eu rhannu yn cael effaith andwyol ar safonau.

Gyda chytundeb yr awdurdod lleol, mae gan yr ysgol gynllun i adfer diffyg yn y gyllideb. Mae'r ysgol yn cysylltu cynlluniau gwario â blaenoriaethau ar gyfer gwella yn briodol. Caiff y cynlluniau hyn eu modelu'n dda gan y rheolwr cyllid sy'n gweithio yn yr ysgol ac sy'n gweithio fel adnodd ar y cyd gyda chlwstwr Dinbych o ysgolion. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn adolygu staffio, blaenoriaethau'r cwricwlwm a chostau er mwyn ateb ei chyllideb yn y dyfodol. Caiff llywodraethwyr wybodaeth dda fel y gallant gyfrannu'n effeithiol at benderfyniadau ariannol.

O ganlyniad i safonau anfoddhaol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu dros y cyfnod hwn, er bod y bwlch yn cau. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r ysgol wedi bod yn y chwarter isaf ar gyfer y pedair blynedd diwethaf ac roedd ymhell islaw'r chwartel isaf yn 2011. O gymharu â'r disgwyliadau sydd wedi'u modelu, mae ymhell islaw. Mewn Saesneg, fe wnaeth perfformiad ar lefel 5 ac uwch ac ar lefel 6 ac uwch wella hefyd dros y pedair blynedd diwethaf, ond mae hwn bob amser wedi bod islaw cyfartaledd y teulu. Am y pum mlynedd diwethaf, mae hyn wedi rhoi'r ysgol yn hanner isaf neu chwarter isaf yr ysgolion tebyg yn ôl cyfran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ond ar ôl bod uwchlaw cyfartaledd y teulu yn 2008 ac yn 2009, fe wnaeth ddisgyn islaw'r cyfartaledd yn 2010 ac yn 2011. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn hanner isaf yr ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim. Ar lefel 6 neu uwch, mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod islaw cyfartaledd y teulu yn gyffredinol. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth hefyd wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, ond bu islaw cyfartaledd y teulu bob amser ac mae wedi gosod yr ysgol yn y chwarter isaf ar gyfer ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 ac uwch mewn gwyddoniaeth wedi bod yn wael, ac ymhell islaw cyfartaledd y teulu. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol ar gyfer 2011 islaw disgwyliadau ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, Saesneg a mathemateg ac ymhell islaw ar gyfer gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn dilyn gostyngiad mawr yn 2010, fe wnaeth perfformiad yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg godi yn 2011, ond dim ond ychydig yn uwch na'r perfformiad yn 2008. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod ymhell islaw cyfartaledd y teulu ac yn y chwarter isaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ymhell islaw'r disgwyliadau sydd wedi'u modelu. Mae'r dangosydd pwnc craidd yn dangos patrwm tebyg. Er y gwnaeth perfformiad yn y trothwy lefel 2 wella yn 2011, mae'n parhau islaw cyfartaledd y teulu a bu yn y chwarter isaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y trothwy lefel 1 wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd diwethaf a bellach mae wedi cyrraedd cyfartaledd y teulu am y tro cyntaf. Roedd perfformiad mewn Saesneg yn 2011 yn wael ac islaw'r perfformiad a gyflawnwyd yn 2008. Dros y pedair blynedd diwethaf , mae perfformiad mewn Saesneg wedi bod ymhell islaw cyfartaledd y teulu ac mae wedi gosod yr ysgol yn chwarter isaf yr ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Er bod perfformiad mewn mathemateg wedi gwella yn 2011, mae islaw cyfartaledd y teulu o hyd. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae wedi gosod yr ysgol yn chwarter isaf yr ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 ac o gyfnod allweddol 3 yn wael yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster ac mae'r gyfran sy'n aros mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed yn uchel.  Adroddir nad yw ychydig ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac mae'r gyfran hon yn debyg i gyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Yn y chweched dosbarth, mae myfyrwyr yn perfformio ymhell islaw cyfartaleddau Cymru ar gyfer trothwy lefel 3 a'r sgôr pwyntiau ehangach.  Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, gan gynnwys gwneud cynnydd da iawn mewn tua thraean o bynciau.

Yng nghyfnod allweddol 3, yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae tangyflawni sylweddol gan ferched o gymharu â pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg ac ar draws Cymru gyfan.  Yng nghyfnod allweddol 3, mae bechgyn yn gwneud yn llawer gwell na merched yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, ac yn y dangosydd pwnc craidd, sy'n wahanol iawn i'r sefyllfa yn y teulu ac yng Nghymru lle mae merched yn gwneud ychydig yn well na bechgyn.  Nid yw hyn yn golygu bod bechgyn yn gwneud yn arbennig o dda gan fod eu perfformiad islaw cyfartaledd y teulu.  Mae merched, yn hytrach, yn perfformio ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu.  Yn y chweched dosbarth, mae bechgyn a merched yn tanberfformio, er bod merched yn gwneud yn waeth na bechgyn.  Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n waeth na'r disgwyl yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.  Mae tua thraean o ddisgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn ac mae bron pob un o'r gweddill yn cyflawni yn ôl y disgwyl.

Yn asesiadau cyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn darllen wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, ond mae islaw cyfartaledd y teulu o hyd.  Mae perfformiad mewn ysgrifennu wedi dirywio ychydig dros y tair blynedd diwethaf ac mae islaw cyfartaledd y teulu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 192 o ddysgwyr, wedi'u dewis ar hap o'r ystod oedran lawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn dweud bod rhywun ganddynt i droi ato os oes ganddynt unrhyw bryderon, ac maent o'r farn bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ystyried eu bod yn gwneud yn dda a bod staff yn eu helpu nhw i ddysgu a gwneud cynnydd a'u hannog i ymgymryd â chyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod digon o lyfrau ac offer ganddynt. Dywed y mwyafrif fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith, sef cyfran is na'r hyn a welir mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn dweud eu bod wedi cael cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau. Mae llawer yn teimlo'u bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth. Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr bod digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff rheolaidd ac mae mwyafrif yn dweud bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach.

Mae llawer o ddysgwyr yn cadarnhau bod staff yn eu trin yn deg a chyda pharch, a dywedant fod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.

Mae mwyafrif y dysgwyr o'r farn bod yr ysgol yn ystyried eu barn, ond mae tua thraean ohonynt o'r farn nad yw hyn yn cael ei wneud ddigon. Mae mwyafrif o ddysgwyr hefyd yn datgan bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu mynd ymlaen â'u gwaith, ond mae'r gyfran hon yn is na'r gyfran mewn ysgolion uwchradd eraill.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafodd Estyn 229 o ymatebion i'r holiadur i rieni. Er bod rhieni wedi rhoi ymateb cadarnhaol neu gadarnhaol iawn i'r cwestiynau, nid oedd yr ymatebion mor gadarnhaol â rhai gan rieni disgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill, gan gynnwys ymatebion a oedd ymhell islaw mewn tua hanner y cwestiynau.

Mae llawer o rieni yn fodlon â'r ysgol a dywedant ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn datgan bod eu plant yn ddiogel ac yn hoffi'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn dweud bod eu plant wedi cael help i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn dweud bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach. Mae llawer ohonynt yn ystyried bod ystod dda o weithgareddau ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn troi at yr ysgol i drafod materion ynghylch addysg a lles eu plentyn.

Mae llawer o rieni o'r farn bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ystyried bod disgwyliadau staff yn dda. Mae llawer ohonynt yn dweud bod yr addysgu yn dda, ond mae'r gyfran yn is nag mewn ysgolion eraill. Mae llawer o rieni o'r farn bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol lle bo'r angen a bod staff yn trin eu plant yn deg a chyda pharch. Mae llawer o rieni o'r farn bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed a'i bod yn paratoi eu plant yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu i goleg a gwaith.

Mae mwyafrif o rieni'n teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant, ond dyma gyfran sylweddol is nag mewn ysgolion eraill. Mae llawer ohonynt yn dweud bod gwaith cartref yn atgyfnerthu dysgu a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda, ond mae'r cyfrannau hyn ymhell islaw cyfrannau mewn ysgolion eraill.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Nigel Vaughan | Arolygydd Cofnodol |
| Claire Morgan | Arolygydd Tîm |
| Jackie Gapper | Arolygydd Tîm |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |
| Andrew Brazier | Arolygydd Lleyg |
| Judith Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| James Brown | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |